



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Systemau integredig ar gyfer y blynyddoedd cynnar

Atodiad technegol

Chris Pascal, Tony Bertram & Kathryn Peckham
Ionawr 2019

Ein cenhadaeth

Sefydlwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref 2017. Ei chenhadaeth yw gwella polisiau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol cydnerth ynghylch beth sy'n gweithio.

Mae'r Ganolfan yn cydweithredu ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi eraill er mwyn cyfodod a pharatoi tystiolaeth sy'n bodoli a chanfod bylchau ble mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisiau ac ymarferwyr er mwyn datblygu syniadau ffres ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill.

Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ganfod, defnyddio a chael mynediad at dystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol all helpu i hysbysu a gwella polisi.
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cynhyrchu, gwerthuso, cymhwyso a chael mynediad at dystiolaeth ynghylch beth sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; a
- Defnyddio ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gwella dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth hysbysu a gwella polisiau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau llunio a gweithredu polisiau.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i greu capasiti ymysg ymchwilwyr i ymgysylltu ag ymchwil dylanwadol sydd yn berthnasol i bolisi.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk

Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Wedi ei lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sydd yn amcanu at feithrin perthnasoedd rhyngwladol cryf tra'n dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sy'n sefydliad newydd sydd yn dod â saith cyngor ymchwil y DU, Arloesi yn y DU ac Ymchwil Lloegr at ei gilydd er mwyn gwneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sydd yn gyfrifol am feysydd allweddol yn cynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Cynllun ymchwil	5
Dull ymchwil	6
Atodiad 1: Methodoleg sgorio Cam Un	9
Atodiad 2: Matrics o systemau blynyddoedd cynnar mewn 10 gwlad yng Ngham 1	11
Atodiad 3: Canfyddiadau dadansoddi Cam 1	16
Cyd-destun	16
Polisi/System (Iechyd ac Addysg)	19
Iechyd	26
Addysg	30
Atodiad 4: Crynodeb o ddarpariaeth iechyd plentyndod, gofal cymdeithasol ac addysg yn y gwledydd adolygiad yng Ngham 2 na'u chynhwysir yn yr Astudiaethau achos	33
Ffindir	33
Iwerddon	35
Atodiad 5: Crynodeb o'r cyd-destun cymharol ar gyfer y 4 astudiaeth achos	37
Cyfeiriadau	41

1 Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu ei system o wasanaethau i blant o genhedlu i 7 mlwydd oed, ac mae'n ystyried yr holl wasanaethau perthnasol sydd o fewn y cwmpas ar gyfer y datblygiad hwn. Edrychir ar dystiolaeth ryngwladol ar systemau ar gyfer y blynyddoedd cynnar sydd â heriau polisi tebyg neu sydd wedi datblygu system integredig ar gyfer y blynyddoedd cynnar, lle gellir dysgu ohonynt. I gefnogi'r gwaith, comisiynwyd Canolfan Ymchwil mewn Plentyndod Cynnar i gwblhau adolygiad byr wedi ffocysu ar dystiolaeth ar gyfer y Ganolfan Polisi Cymdeithasol Cymru sydd yn adeiladu ar y gwaith cymharu sydd eisoes wedi ei gwblhau gan y CYPC ar gyfer gwahanol gyrfi i'r Adran Addysg (Llundain) sydd wedi dogfennu a dadansoddi cymariaethau rhyngwladol rhwng systemau cyn ysgol mewn 45 o wledydd. Mae'r adolygiad yn tynnu ar y gwaith hwn a nifer o adolygiadau cyhoeddadedig arall a nodwyd drwy broses werthuso tystiolaeth gyflym.

Mae'r **Atodiad Technegol** hwn yn darparu ychydig o'r deunydd technegol mwy manwl a dadansoddiad a gefnoga ganfyddiadau'r Adolygiad, gan ganolbwyntio yn ogystal ar ddeunydd o wledydd nad ydynt wedi eu cynnwys yn y pedwar astudiaeth achos terfynol.

2 Cynllun ymchwil

Yn yr adran hon, gosodwn nodau'r adolygiad, cwestiynau a'r ymagwedd ymchwil a ddefnyddiwyd.

Nodau'r adolygiad

Wrth gomisiynu'r adroddiad, nododd Llywodraeth Cymru ddwy nod:

- I adolygu achosion nifer penodedig o wledydd/ ranbarthau tebyg i Gymru sydd â 'system integredig ar gyfer y blynyddoedd cynnar', ac i archwilio yn systemig beth sydd wedi gweithio a beth sydd heb weithio o ystyried nodau gwahanol bolisiau, a thynnu sylw at y dewisiadau polisi/ cyfaddawd sy'n gynhenid yn y systemau sydd ganddynt yn eu lle;
- I ddisgrifio sut y cyflawnwyd trawsnewidiadau yn y broses o ddarparu systemau tuag at fodelau cyflenwi system integredig a mynediad gwell at y gwasanaethau integredig hyn.

Cwestiynau adolygiad

Mae'r adolygiad o dystiolaeth yn mynd i'r afael â'r cwestiwn ymchwil cyffredinol canlynol:

Beth yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar 'systemau' integredig ar gyfer y blynyddoedd cynnar o wledydd y gellir eu cymharu â Chymru?

Mae is-gwestiynau yn cynnwys:

- *Beth mae eraill yn ei wneud?* Beth yw eu 'systemau' gwahanol o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar sydd ar waith mewn gwledydd neu ranbarthau tebyg i Gymru?
- *Pa mor effeithiol ydynt?* Pa dystiolaeth sydd ar gael ar effaith y 'systemau' hyn ar ganlyniadau i blant a'u teuluoedd? Ac ar wasanaethau darparwr ac allbynnau?
- *Pa mor gost-effeithiol ydynt?* Beth yw cost gymharol bob model (neu elfennau allweddol), ar gyfer y canlyniadau a geir? [Os oes dystiolaeth ar gael]

Yn y dadansoddiad, trosi 'beth sy'n gweithio' (a beth sydd ddim yn gweithio) i Gymru:

- Pa fath neu lefel o integreiddio sy'n ddymunol?
- Pa 'systemau' blynyddoedd cynnar, os o gwbl, efallai y ceisia Cymru ei ddyblygu yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol?
- Beth yw'r galluogwyr allweddol i integreiddio gwasanaethau, ar lefelau lleol a chenedlaethol?
- Beth y gellir ei ddysgu am y broses newid wrth ddatblygu system blynyddoedd cynnar mwy integredig?

Dull ymchwil

Rhan 1: Mapio Tystiolaeth

Gan ddefnyddio techneg Dadansoddi Tystiolaeth Gyflym, nodwyd adolygiadau perthnasol a setiau data oedd yn bodoli eisoes. Roedd y dystiolaeth yr adolygiad yn tynnu yn enwedig ar 6 astudiaeth cymharol ryngwladol o systemau iechyd, gofal ac addysg plentyndod cynnar:

- Economist Intelligence Unit (EIU) (2012) ***Starting Well: Benchmarking Early Education Across the World***. Economist Intelligence Unit: Hong Kong;
- Cullen A., McDaid, D., Wynne R., Matosevic T. a Park, A. (2017) ***A wide-angle international review of evidence and developments in mental health policy and practice. Evidence review to inform the parameters for a refresh of A Vision for Change (AVFC)***. Adran Iechyd, Dulyn, Iwerddon;
- OECD (2017a) ***Starting Strong 2017: Key OECD Indicators on Early Childhood Education and Care, Starting Strong***, OECD Publishing, Paris;
- Pascal C., Bertram T., Delaney S., and Nelson C. (2012) ***A Comparison of International Childcare Systems: Evidence to Childcare Commission***. Llundain: Adran Addysg;
- Pascal C. a Bertram T. (2016) ***Early Childhood Policies and Systems in Eight Countries: Findings from IEA's Early Childhood Education Study***, The International Association for the Evaluation of Educational Achievement: Hamburg;
- Wolfe I. (Ed) (2014) ***European Child Health Services and Systems: Lessons Without Borders***, McGraw Hill Education, DU.

Cefnogodd astudio'r pum adolygiad hwn a setiau data ychwanegol greu matrices sy'n cyflwyno tystiolaeth ar systemau blynyddoedd cynnar mewn 10 gwlad. Roedd y meini prawf a ddefnyddiwyd i ddewis y 10 gwlad a ddadansoddir yn y cyfnod cyntaf hwn yn cynnwys: maint, llywodraethu, poblogaeth, economi, system Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (ECEC), perfformiad yn PISA ac argaeledd data. Y 10 gwlad a ddewiswyd oedd: Lloegr, Iwerddon, Y Ffindir, Denmarc, Gwlad Belg, Seland Newydd, Yr Iseldiroedd, Yr Almaen, Gwlad Pwyl ac Estonia. Mae'r matrices 10 gwlad, sy'n crynhoi'r data sydd ar gael, yn arddangos ymatebion polisi allweddol a nodweddion strwythurol systemig canlyniadol ar gyfer pob gwlad, wedi ei gyflwyno fel 26 o nodweddion y system o dan bedwar prif bennawd; Cyd-destun, Polisi/ System (Iechyd ac Addysg), Addysg ac Iechyd. O fewn y tabl defnyddiom system sgorio o 1-5 a seiliwyd ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y *Starting Well Index* (EIU, 2012), lle mae 1=y gwaethaf a 5=y gorau. Mae'r broses sgorio hon yn caniatáu rhoi dyfarniad yn sydyn ar y systemau perfformio uwch ar bob un o'r 26 nodwedd. Mae manylion am y 26 Nodwedd y System a Methodoleg Sgorio wedi eu gosod yn Atodiad 1 a'r Matrics sy'n ganlyniad yn Atodiad 2.

Rhan 2: Astudiaethau achos

O'r ymarfer mapio yn y cyfnod cyntaf a edrychodd ar ffyrdd o gyflawni modelau cyflawni gwasanaeth integredig i iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg blynyddoedd cynnar mewn 10 gwlad, nodwyd 6 gwlad ar gyfer edrych arnynt yn agosach i ganfod perthnasedd darpariaeth iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg i blant ifanc: Gwlad Belg, Denmarc, Estonia, Y Ffindir, Iwerddon a'r Iseldiroedd. Cynhyrchwyd adroddiad byr ar gyfer bob un o'r chwe gwlad a ganiataodd y tîm comisiynu i gytuno ar bedair gwlad ar gyfer astudiaeth achos manwl. Roedd hyn yn galluogi cynhyrchu pedair astudiaeth achos o bolisi blynyddoedd cynnar, nodweddion systemig y gwasanaethau, lefel yr integreiddio a'r broses o gyflawni hyn, lle'r oedd tystiolaeth yn bodoli.

Dewiswyd y pedwar achos terfynol drwy ddefnyddio'r meini prawf canlynol: maint a demograffeg, tirwedd strwythurol/ gwleidyddol, cam y datblygiad yn integreiddio gwasanaethau, argaeledd data. Cytunwyd mai'r achosion i'w hastudio ar gyfer cam 2 o'r adolygiad fyddai Gwlad Belg, Denmarc, Estonia a'r Iseldiroedd.

Nod yr Astudiaethau achos oedd disgrifio cyd-destun demograffeg, y fframwaith polisi/llywodraethol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau blynyddoedd cynnar; y systemau iechyd, cymdeithasol/ gofal teulu presennol, gan gynnwys cyflawni darpariaeth ar y rheng flaen a phrofiad defnyddiwr o'r gwasanaethau (lle mae tystiolaeth ar gael) a llwybr polisi'r wlad ar gyfer datblygu gwasanaeth integredig. Casglwyd a choladwyd tystiolaeth o adolygiadau cyhoeddedig oedd eisoes yn bodoli, papurau a dogfennau polisi a'u cyflwyno fel

pedwar astudiaeth achos unigol. Cynhaliwyd metaddadansoddiad o'r pedwar achos drwy ddefnyddio Model Lefel o Integreiddio, Bertram a Pascal (2002) a Model Newid 8 Cam, Kotter (2012) i dynnu amlygrwydd cyffredin a gwahaniaethau pwysig yn y dewisiadau polisi a wnaed ar wahanol gamau yn yr integreiddio, a'r canlyniadau ar gyflawni darpariaeth a phrofiad gwasanaeth i ddefnyddwyr.

Atodiad 1: Methodoleg sgorio Cam Un

Mae'r mini prawf a ddefnyddiwyd i ddewis y 10 gwlad at Gam Un a ddadansoddiwyd yng Ngham Un yn cynnwys: Maint; Llywodraethu; Poblogaeth; Economi; system ECEC, perfformiad PISA; Argaeledd data. Y 10 gwlad a ddewiswyd oedd: Lloegr, Iwerddon, Y Ffindir, Denmarc, Gwlad Belg, Seland Newydd, Yr Iseldiroedd, Yr Almaen, Gwlad Pwyl ac Estonia. Mae'r matrices, sy'n crynhoi'r data sydd ar gael, yn arddangos ymatebion polisi allweddol a nodweddion strwythurol systematig canlyniadol ar gyfer bob gwlad, wedi ei gyflawni fel system 26 nodwedd, sef:

CYD-DESTUN

1. Safle PISA (2012)
2. Tueddiadau poblogaeth plant a phobl ifanc (data demograffeg)
3. Poblogaeth sydd mewn perygl o dlodi neu allgau cymdeithasol
4. Amddifadedd plant
5. Cyfradd marwolaethau plant
6. Iechyd/ llesiant plant

POLISI/SYSTEM (Iechyd ac Addysg)

7. Gwariant llywodraeth ar addysg blynnyddoedd cynnar/ iechyd fel % o GDP
8. Perchnogaeth Adrannol/ Gweinidogol ar gyfer iechyd ac addysg
9. Hawl cyfreithiol i ECEC/ gwasanaethau iechyd
10. Absenoldeb rhiant – hawliau cyffredinol
11. Oed ar ddechrau ysgol
12. Strategaeth ECEC/ polisi iechyd
13. Grwpiau targed ar gyfer ymyrraeth gynnar (iechyd/ addysg)
14. Lefelau cofrestru/ cyfranogiad yn ECEC/ gwasanaethau iechyd
15. Strategaethau cyllido/cymorthdaliadau

16. Disgwyliad o ganlyniadau'r system
17. Strategaethau integreiddio
18. Hyfforddiant gweithlu iechyd/ addysg

IECHYD

19. Mathau o wasanaethau iechyd a chyllido (gan gynnwys iechyd meddwl)
20. Cwmpas gwasanaethau iechyd (EYs)
21. Fframwaith/ arolygiad/ achrediad rheoleiddio
22. Lefel integreiddio

ADDYSG

23. Mathau o leoliadau a chyllido
24. Cwmpas gwasanaethau addysg
25. Fframwaith/ arolygiad/ achrediad Rheoleiddio
26. Lefel integreiddio

Yn ogystal, datblygwyd sylwebaeth i gyd-fynd â phob nodwedd yn y matrices.

O fewn y tabl defnyddiwyd system sgorio o 1-5 yn seiliedig ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y *Starting Well Index* (EIU, 2012), lle mae 1=y gwaethaf a 5= y gorau. Roedd ymchwil *Starting Well* yn asesu data yn ymwneud â chynhwysiant a safon gwasanaethau cyn ysgol ar draws 45 gwlad, gyda nifer ohonynt wedi eu cynnwys yn yr adolygiad hwn. I sgorio gwledydd ar draws pedwar dosbarth - Cyddestun Cymdeithasol, Argaeledd, Fforddiadwyedd a Safon - roedd yn cynnwys dangosyddion oedd yn disgyn i ddau ddosbarth eang: Dangosyddion meintiol (er enghraifft, cymhareb cofrestru cyn ysgol a gwariant addysg cyn-gynradd y llywodraeth) a dangosyddion ansoddol (er enghraifft, "Cymorthdaliadau i deuluoedd dan anfantais"). Mae'r dangosyddion ansoddol hyn wedi cael eu mynegi ar raddfa cyfanrif o 1-5 (lle mae 1= y gwaethaf, 5=y gorau).

Normaleiddiwyd y sgôr dangosydd ac yna eu hagregu ar draws y dosbarthiadau i alluogi cymhariaeth gyffredinol. I wneud data yn gymaradwy, fe wnaethom normaleiddio'r data ar sail: Wedi'i normaleiddio $x = (x - \text{Lleiafswm}(x)) / (\text{Uchafswm}(x) - \text{Lleiafswm}(x))$, lle mae $\text{Lleiafswm}(x)$ ac $\text{Uchafswm}(x)$, yn ôl eu trefn, y gwerth isaf a'r uchaf yn y gwledydd ar gyfer unrhyw ddangosydd. Yn dilyn hyn trawsnewidiwyd y gwerth a normaleiddiwyd yn rif positif ar raddfa o 1-100. Fe'i gwnaed yn yr un modd ar gyfer dangosyddion meintiol lle mae gwerth uchel yn

dangos mwy o gynhwysedd a safon gwasanaethau cyn ysgol. Mae'r broses sgorio hon yn galluogi gwneud dyfarniad yn sydyn ar y systemau perfformio uwch ar y 26 nodwedd.

Atodiad 2: Matrics o systemau blynyddoedd cynnar mewn 10 gwlad yng Ngham 1

Allwedd: SN – Seland newydd
 NL - Iseldiroedd
 Ger – Almaen
 DDG – Dim data ar gael o fewn y ffynonellau a nodwyd

Nodweddion System	Cymru										
	Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Iseldiroedd	Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl	
CYD-DESTUN											
1. Safle PISA (2012)	4 (DU)	18	1	6	5	9	8	11	NA	31	
2. Tueddiadau poblogaeth plant a phobl ifanc (data demograffig)	Mae'r nifer o blant yn Ewrop yn gostwng yn araf, fel sy'n wir am y gyfran o bobl ifanc yn y boblogaeth, gyda chynnydd cyfatebol mewn pobl hŷn drwy Ewrop.										
3. Poblogaeth sydd mewn perygl o dlodi neu allgau cymdeithasol	1/5	1/5	DDG	1/5	1/5	DDG	DDG	1/5	1/5	DDG	DDG
4. Amddifadedd plant	3/5	4/5	DDG	5/5	4/5	1/5	DDG	4/5	1/5	0/5	0/5
5. Cyfradd marwolaethau plant		3/5	DDG	4/5	3/5	3/5	DDG	3/5	4/5	3/5	3/5
6. Iechyd/llesiant plant		5/5	5/5	5/5	5/5	5/5	5/5	5/5	5/5	5/5	5/5

POLISI/SYSTEM (Iechyd ac Addysg)												
7. Gwariant y llywodraeth ar addysg blynyddoedd cynnar/iechyd fel % o GDP	Addysg		1.1	1.4	1.2	3.1	2.1	DDG	1.6	1.3	2.2	1.8
	Iechyd		3/5	5/5	5/5	5/5	3/5	DDG	1/5	5/5	4/5	1/5
8. Perchnogaeth Adrannol/ Gweinidogol ar gyfer iechyd ac addysg	Addysg	Adran Addysg a Sgiliau (Cymru)	Adran Addysg (Lloegr)	Adran Addysg (Gogledd Iwerddon) (North)	Gweinidog aeth dros Addysg a Diwylliant	Corff Integredig	Adran Addysg a Hyfforddiant	Gweini dogaeth Addysg	Iechyd ac Addysg Leol	Gweini dogaeth Ffederal Addysg ac Ymchwil	Adran Addysg	(ECED) Iechyd a Chorff Integredig, (PPE) Addysg
	Iechyd	Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol	Adran Addysg a Gofal Cymdeithasol	Adran Iechyd	Gweinidog aeth Materion Cymdeithasol ac Iechyd	Gweinidog aeth Iechyd	Gweinidog aeth Iechyd Gwlad Belg	Gweini dogaeth Iechyd	Gweinidog aeth Iechyd ac Iechyd Lleol ac Addysg	Gweini dogaeth Ffederal Iechyd	Adran Lles Cymdeithasol	Gweinidog aeth Iechyd
9. Hawl cyfreithiol i ECEC/gwasanaethau iechyd	Addysg		5/5	5/5	5/5	5/5	5/5	0/5	5/5	5/5	3/5	4/5
	Iechyd											
10. Absenoldeb riant – hawliau cyffredinol			DDG	DDG	DDG	3/8	DDG	DDG	DDG	DDG	4/8	4/8
11. Oed yn dechrau'r ysgol		5	5	4	7	7	6	5	5	6	7	7
12. ECEC/Strategaeth Polisi Iechyd	Addysg		5/5	4/5	4/5	4/5	5/5	4/5	3/5	3/5		3/5
	Iechyd											
13. Grwpiau targed ar gyfer ymyrraeth gynnar (iechyd/addysg)	Addysg		DDG	DDG	DDG	5/5	DDG	DDG	DDG	DDG	5/5	5/5
	Iechyd											

14. Cofrestru/ lefel cyfranogiad mewn ECEC/gwasanaethau iechyd	Addysg		5/5	5/5	5/5	4/5	5/5	5/5	5/5	5/5	2/5	1/5
	lechyd											
15. Strategaeth cyllido/ cymorthdaliadau	Addysg		5/5	4/5	5/5	4/5	4/5	4/5	3/5	1/5	4/5	2/5
	lechyd											
16. Disgwyliadau a chanlyniadau'r system		4/5	DDG	DDG	DDG	4/5	DDG	DDG	DDG	DDG	4/5	2/5
17. Strategaethau integreiddio			DDG	DDG	DDG	2/5	DDG	DDG	DDG	DDG	5/5	0/5
18. Hyfforddiant y gweithlu iechyd/addysg	Addysg		5/5	3/5	5/5	4/5	4/5	5/5	4/5	3/5	4/5	3/5
	lechyd											
lechyd												
19. Math o wasanaethau iechyd a chyllid (gan gynnwys iechyd meddwl)			Mae gwasanaethau iechyd ysgol yn rhan o'r gwasanaeth iechyd, ond yn benodol. Mae gwasanaethau iechyd ysgol yn ymweld ag ysgolion	DDG	Mae gwasanaethau iechyd ysgol yn rhan o'r gwasanaeth iechyd, ond yn benodol ac wedi'u lleoli yn yr ysgol. Cynigir rhai gwasanaethau (e.e. arolygiad amgylcheddol yr ysgol) gan ofal iechyd sylfaenol	DDG	DDG	DDG	Mae gwasanaethau iechyd ysgol yn rhan o'r gwasanaeth iechyd, ond yn benodol. Mae gwasanaethau iechyd ysgol yn ymweld ag ysgolion	DDG	DDG	Mae gwasanaethau iechyd ysgol yn rhan o'r gwasanaeth iechyd, ond yn benodol ac wedi'u lleoli yn yr ysgol. Cynigir rhai gwasanaethau gan ofal iechyd sylfaenol
20. Cwmpas y gwasanaethau iechyd (EYs)		Adolygiad Cyn geni gan Ymwelydd Iechyd; Adolygiad Iechyd Teulu	7-10 apwyntiad cyn geni; Cefnogaeth YI ôl-enedigol,	DDG	Arolygiad iechyd cynhwysfa wr (ac arolygiad iechyd y	DDG	DDG	DDG	Sawli ymweliad gofal iechyd yn ystod blynyddo	DDG	DDG	Cyn ysgol, ac yn y 3ydd dosbarth

		<p>yn ystod Wythnos Un Chwech, 6 mis, 8-16 wythnos, 6 mis, 15 mis, 27 mis, 3 ½ mlwydd a 4-5 mlwydd oed</p>	<p>adolgygiad ôl-enedigol 6 wythnos ac adolgygiadau iechyd a datblygiad plant rheolaidd hyd at 2 oed</p>		<p>geg ar wahân) yn y dosbarthiad au 1af (7 oed), 5ed (11 oed) ac 8fed (14 oed); arolygiad sylfaenol unwaith bob blwyddyn academaidd ym mhob dosbarth arall o'r 2il i'r 9fed</p>			<p>edd ysgol, yn bennaf yn nosbarthiadau 2 (5-6 oed) a 7 (10-11 oed) yn ysgol gynradd</p>		<p>cynradd (9 oed)</p>
<p>21. Fframwaith rheoleiddio/ arolygu/ achredu</p>		<p>Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) i Blant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yn gosod safon y gwasanaethau mae gan blant, bobl ifanc a'u teuluoedd yr hawl i'w ddisgwyl a'i dderbyn yng Nghymru. Mae ei gwmpas yn cynnwys pob plentyn o gyn cenhedlu i</p>								

		ben-blwydd yn 18, y mae gan GIG Cymru ac awdurdodau gwasanaethu cymdeithasol gyfrifoldeb amdanynt.										
22. Lefel integreiddio												
ADDYSG												
23. Math o leoliadau a chyllid			DDG	DDG	DDG	0-6 oed	DDG	DDG	DDG	DDG	0-7 oed	5 mis-7 oed
24. Cwmpas gwasanaethau addysg		Cwricwlwm Cyfnod Sylfaenol i 3-7 oed	DDG	DDG	DDG	I ECED a PPE	DDG	DDG	DDG	DDG	I ECED a PPE	I PPE, Gydag argaeledig cyfyngedig mewn ardaloedd gwledig
25. Fframwaith rheoleiddio/ arolygu/ achredu			4/5	3/5	5/5	4/5	5/5	DDG	4/5	3/5	3/5	0/5
26. Lefel integreiddio												

Ffynonellau: Gweler Cyfeirnodau

Atodiad 3: Canfyddiadau dadansoddi Cam 1

Mae'r dystiolaeth gymharol ar gyfer y 10 gwlad a ddewiswyd wedi'i grynhoi yn y matrices a ddarperir yn Atodiad 2. Isod darperir sylwebaeth fer ar bob un o'r nodweddion system yn y 10 gwlad a ddewiswyd. Lle na allwn ddod o hyd i'r data o fewn y setiau data cyhoeddus cofnodwyd Dim Data ar Gael (DDG). Dylid nodi nad yw hyn yn golygu na ellir fod wedi dod o hyd i'r data gyda rhagor o ymchwil, ond nad oedd ar gael yn yr adolygiadau a ddewiswyd oherwydd adnoddau cyfyngedig. Amlygir pwyntiau allweddol o Ran 1 adolygiad 10 gwlad ar ddiwedd yr adran hon.

Cyd-destun

1 Safle PISA (2012)

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldir oedd	Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
4 (DU)	18	1	6	5	9	8	11	NA	31

Mae'r data yn datgelu o fewn y 10 gwlad mae ystod o berfformiad yn y Safle PISA, ond mae 6 gwlad yn y 10 perfformiwr uchaf yn y safleoedd PISA, sy'n dynodi bod eu system blynyddoedd cynnar yn perfformio'n dda.

2 Tueddiadau poblogaeth plant a phobl ifanc (data demograffig)

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldir oedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
DDG	DDG	DDG	DDG	DDG	DDG	DDG	DDG	DDG	DDG

Er nad yw'r data yn cael ei ddarparu ar gyfer gwledydd unigol, mae tystiolaeth adolygiad yn dynodi fod y nifer o blant yn Ewrop yn gostwng yn araf, fel y mae'r gyfran o bobl ifanc y boblogaeth, gyda chynnydd cyfatebol yn yr henoed trwy Ewrop.

3 Poblogaeth mewn risg o dlodi neu allgau cymdeithasol

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldir oedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
1/5	DDG	2/5	2/5	DDG	DDG	2/5	2/5	DDG	DDG

Hyd yn oed mewn gwledydd gyda systemau lles cymdeithasol datblygedig, dangosa ffigyrau diweddar nifer gymharol uchel o blant mewn perygl o dlodi neu allgau cymdeithasol, ac mae'r nifer hwn yn cynyddu yn llawer o'r gwledydd sy'n cael eu hadolygu. Yn deillio o'r canran o blant oed 0-17 sydd o fewn perygl, edrychodd *Lessons without Borders* (2014) ar y gyfran o'r boblogaeth mewn perygl o dlodi neu allgau cymdeithasol yn 2011. Data craidd; DU (26.9%), Ffindir (16.1%), Denmarc (16%), Yr Iseldiroedd (18%) ac Yr Almaen (19.9%). Mae tlodi yng Nghymru yn uwch na chyfartaledd y DU, a rhagwelir y bydd y gyfran o boblogaeth Gymru sy'n byw mewn tlodi cymharol yn cynyddu. Mae Sefydliad Astudiaethau Ariannol yn rhagweld y gall tlodi plant gynyddu oddeutu traean erbyn 2020 ac mae Achub y Plant yn rhagweld cyfraddau yn rhagori ar ei lefelau 1990 cynnar erbyn 2020 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015).

4 Amddifadu plant

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldiroedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
4/5	DDG	5/5	4/5	1/5	DDG	4/5	1/5	0/5	0/5

Deillia hyn o Wolfe (2014) a edrychodd ar gyfraddau amddifadedd ar gyfer; plant gyda diffyg dwy eitem neu ragor, plant yn bwy mewn teuluoedd rhiant sengl, plant yn byw mewn teuluoedd gydag addysg rhiant isel (dim, cynradd ac uwchradd is), plant yn byw mewn cartref lle nad oes oedolyn mewn cyflogaeth â thâl ac ar gyfer plant yn byw mewn teuluoedd mudol. Cyfunwyd y sgoriau unigol i gyrraedd sgôr gyfan (fe'i darperir yn y tabl) ac fe'i troswyd wedyn i raddfa. Roedd amddifadedd plant yn arbennig o gyffredin yng Ngwlad Belg a'r Almaen sydd wedi derbyn niferoedd uchel o blant mudo. Nid oedd Cymru wedi ei chynnwys yn y data hwn (tu allan i'r DU), felly mae datganiad Achub y Plant fod canran uwch o blant Cymru yn byw mewn tlodi difrifol o'i gymharu â gweddill y DU wedi cael ei ddefnyddio ynghyd â'i restr o ddangosyddion diriaethol i gyrraedd graddfa (Achub y Plant, 2017).

5 Cyfraddau marwolaethau plant

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldir oedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
3/5	DDG	4/5	3/5	3/5	DDG	3/5	4/5	3/5	3/5

Yn deillio o Wolfe (2014) a edrycha ar gyfraddau marwolaethau (0-14 oed, pob achos, cyfartaledd blwyddyn 2006-2010) lle'r oedd y cyfraddau marwolaethau (wedi'i safoni'n uniongyrchol) yn cael eu cyfrifo fel marwolaethau/100,000 a Starting Well a ddefnyddiodd dadansoddiad World Bank, asiantaethau ystadegau cenedlaethol, Economist Intelligence Unit lle mae cyfraddau Marwolaethau dan bump yw'r tebygolrwydd fesul 1,000 fod plentyn newydd anedig am farw cyn cyrraedd pump oed, os yw'n amodol i gyfraddau marwolaeth oed penodol cyfredol. 5=0 dan 10; 1=Uwchben 40.

Mae'r data sydd ar gael i Gymru yn cyfuno Lloegr a Chymru, ond i roi cyd-destun ychwanegol, yn 2016, roedd cynnydd bychan yng nghyfraddau marwolaeth babanod (3.8 marwolaeth fesul 1,000 o enedigaethau byw) a newydd enedigol (2.7 marwolaeth fesul 1,000 genedigaeth) yn Lloegr a Chymru o 2015 ond mae'r cyfraddau hyn yn parhau i aros yn isel yn nhermau hanesyddol (yn seiliedig ar ddigwyddiadau marwolaeth). Gellir priodoli'r cynnydd hyn i ffactorau risg fel gwlad enedigol y fam, oedran y fam ar enedigaeth y plentyn, pwysau ar enedigaeth a statws cymdeithasol-economaidd y rhieni. Mae cyfradd marwolaethau babanod wedi gweld tuedd ar i lawr ers y 1990au, hyd at 2015, lle dechreuodd y raddfa godi (Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, 2016)

6 Iechyd/lles plant

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Seland Newydd	Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
5/5	5/5	5/5	5/5	5/5	5/5	5/5	5/5	5/5	5/5

Roedd y raddfa hon yn cynnwys y raddfa 0-15 wedi ei chlustnodi o fewn adroddiad y Economist Intelligence Unit Starting Well (2012) a ystyria'r graddau yr oedd plant iach ac wedi'u bwydo'n dda yn dod i'r system drwy edrych ar yr amgylchedd cymdeithasol-economaidd

eang, sicrhau fod plant yn iach ac wedi'u bwydo'n dda pan maent yn dechrau cyn ysgol, a'r sgôr Llesiant Corfforol y Plentyn ar raddfa 1-5 a glustnodwyd gan Pascal & Bertram (2012) sydd yn darparu sgôr ar gyfer bob gwlad wedi ei gyfrifo yn defnyddio'r dangosyddion:

- Cyffredinolrwydd diffyg maeth;
- Cyfradd marwolaethau dan 5;
- Cyfradd imiwneiddio, DPT (Diphtheria, Pertussis, Tetanus).

Polisi/System (Iechyd ac Addysg)

7 Gwariant llywodraeth ar addysg gynnar/iechyd fel canran o GDP

	Cymru	Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Isel diroedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
Addysg		1.1	1.4	1.2	3.1	2.1	DDG	1.6	1.3	2.2	1.8
Iechyd		3/5	5/5	5/5	5/5	3/5	DDG	1/5	5/5	4/5	1/5

Mae'r data yn dangos amrywiaeth eang yn y lefel o wariant llywodraeth mewn addysg ac iechyd. Mae rhai gwledydd wedi mabwysiadu polisiau lle mae'r cyfrifoldeb yn cael ei roi ar y teulu unigol yn hytrach na gwariant llywodraeth.

Gwariant iechyd: Mae'r data hyn yn ffocysu ar wariant ar y teuluoedd ac iechyd plant yn nhermau budd-daliadau arian parod a budd-daliadau mewn nwyddau fel canran o GDP. Mae'r cysylltiadau rhwng polisi, gwariant cymdeithasol a chanlyniadau iechyd, fel marwolaeth, yn gymhleth, fodd bynnag er budd yr adolygiad hwn maent wedi eu cysylltu i'r cyfrannau cymharol o'r budd-daliadau a roir fel arian parod neu fudd-daliadau mewn nwyddau. Awgrymir bod cyfraddau amddifadu plant yn cael eu penderfynu'n sylweddol gan ddewisiadau gwleidyddol mewn perthynas â threth a pholisiau budd-daliadau, gan adlewyrchu dewisiadau ynglŷn â nid yn unig y lefel o gefnogaeth i'r rhai hynny sydd o'r risg mwyaf ond hefyd sut mae'n cael eu dosbarthu - fel gwariant uniongyrchol ar wasanaethau neu fudd-daliadau mewn nwyddau. Mae Denmarc a'r Iwerddon ymhlith y rhai sy'n gwario mwyaf ar deuluoedd a phlant, fel canran o'r GDP

ond mae lwerddon yn dosbarthu mwy drwy drosglwyddiadau arian parod (budd-daliadau) tra mae Denmarc yn gwario mwy ar wasanaethau, neu drwy'r flaenoriaeth yn diffinio angen sydd yn cael ei roi i addysg, cyflogaeth, neu statws mudo.

Gwariant addysg: Mae adroddiad Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2014) yn dangos fod gwariant cyhoeddus ar ofal plant ac addysg gynnar dros un y cant o GDP yn Denmarc, Seland Newydd a'r DU, ond o dan 0.06 y cant yn yr Almaen. Mae gwariant cyn ysgol yn sylweddol uwch na gwariant ar ofal plant yn Denmarc, y DU, Seland Newydd a'r Almaen.

Yn Seland Newydd, mae rhieni yn gofalu am oddeutu 25 y cant o gostau ECEC, gyda'r llywodraeth yn gofalu am y costau sy'n weddill (Llywodraeth Seland Newydd, 2016). Mae bob un 3-5 oed â hawl i 20 awr o ECEC heb unrhyw daliadau gorfodol. Mae'n rhaid i rain, fodd bynnag, gael eu hawlio yn lle, ac nid yn ychwanegol, i'r llefydd a gymorthdelir.

Yn yr Almaen, mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu rhwng y gwladwriaethau ffederal. Y bwrdeistrefi sy'n gyfrifol am drefnu a sicrhau cyllid ar gyfer addysg gynnar a darpariaeth gofal. Maent yn cydweithio gydag amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau, gan gynnwys darparwyr anllywodraethol ac eglwysi, sy'n chwarae rhan arbennig o bwysig. Mae'r cyllid a ddarperir gan lywodraethau gwladwriaethau ffederal yn amrywio, gyda rhai gwladwriaethau ffederal yn cynnig hawl am ddim am un, dwy neu dair blynedd cyn cofrestru ysgol ffurfiol. Lle ma angen cyfraniad ariannol rhieni, mae hyn yn ddibynnol ar eu hincwm, ond i blentyn 2 oed mewn gofal am 40 awr yr wythnos, mae cyfraniad rhieni yn cyfateb i oddeutu 20 y cant o'r cyflog cyfartalog (AW) yn yr Almaen (OECD, 2014).

8 Perchnogaeth adrannol/ gweinidogol ar gyfer iechyd ac addysg

Dangosa'r dystiolaeth ym mhob un o'r 10 gwlad fod cyfrifoldeb am addysg ac iechyd yn disgyn mewn o leiaf dwy adran neu weinidogaeth lywodraethol wahanol. Mae teitlau'r adrannau neu weinidogaethau hyn yn amrywio ychydig o wlad i wlad, ond yn gyffredinol mae addysg ac iechyd yn ymddangos yn nheitlau'r adrannau. Yn Denmarc a Gwlad Pwyl mae corff integredig ar gyfer iechyd ac addysg ond dim ond i blant o dan dair blwydd oed.

9 Hawliau cyfreithiol i ECEC/gwasanaethau iechyd

Mae tystiolaeth adolygiad yn awgrymu hawl cyfreithiol clir i addysg cyn ysgol yn y rhan fwyaf o wledydd yn yr adolygiad: Hawliau statudol i wasanaethau 0-3 mlwydd oed a phlant 3 oed i ddechrau ysgol gynradd. Cyfunwyd hyn gyda data Starting Well a ystyria presenoldeb ac effeithiolrwydd deddfwriaeth glir, ddiamwys i'r hawl i addysg cyn ysgol am o leiaf un flwyddyn. 1=Oes, mae'r math hwn o ddeddfwriaeth yn ei le ac yn cael ei orfodi'n ddigonol; 0.5= Oes, mae'r math hwn o ddeddfwriaeth yn ei le ond mae gorfodaeth yn wan; 0=Na, nid oes y math hwn o ddeddfwriaeth yn bodoli.

10 Absenoldeb rhiant – hawliau cyffredinol

Mae gan y DU, Denmarc, Yr Almaen a Seland Newydd reoliadau ar bolisiau lleiafswm absenoldeb rhiant. Fel arfer mae'r absenoldeb yn cael ei rannu'n absenoldeb mamolaeth, a bennir gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) yn lleiafswm o 14 wythnos, tadolaeth ac absenoldeb rhiant, a ellir ei rannu fel arfer rhwng y rhieni (OECD Basa data Teulu). Mae polisiau absenoldeb rhiant yn gwahaniaethu rhwng y gwledydd astudiaeth achos, ond nid yw'r rhain yn cael gwir effaith ar y pwynt mae'r plant yn dechrau addysg cyn ysgol neu ofal yn y gwledydd astudiaeth achos. Y DU sydd â'r hawl absenoldeb mamolaeth, gyda hyd o 52 wythnos, er telir hyn ar 22.5 y cant o'r cyflog (h.y. cyfradd talu cyfartalog). Mae mamau yn y DU yn derbyn dros 11 wythnos o absenoldeb gyda thâl llawn (wedi ei dalu ar 100 y cant o'u henillion).

Mae gan Denmarc 18 wythnos o absenoldeb gyda thâl, gyda chyfartaledd taliad ar raddfa 51.5 y cant, a thros 9 wythnos yn cael ei dalu yn 100 y cant. Ond i bobl mewn cyflogaeth, mae posibilrwydd ymestyn absenoldeb gyda thâl i 50 wythnos. Mae gan Seland Newydd a'r Almaen 14 wythnos o absenoldeb mamolaeth gyda thâl, er yn Seland Newydd, 6.5 wythnos yn unig mae merched yn ei gael. Pythefnos yw absenoldeb tadolaeth yn y DU a Denmarc, ond 8.7 wythnos yn yr Almaen. Roedd bob un o'r gwledydd a archwiliwyd oni bai am Seland Newydd a'r DU yn cynnig absenoldeb rhiant ychwanegol gyda thâl. Yr APR cyfartalog ar gyfer absenoldeb rhiant yw 50 y cant. A chymryd y taliad a'r hyblygrwydd i ystyriaeth, y polisiau yn Denmarc a'r Almaen sy'n darparu rhieni gyda'r hyblygrwydd mwyaf (Anders, 2015).

Yn Denmarc, mae hawliau ECEC yn dechrau yn 6 mis oed, ac mae'r gorgyffwrdd rhwng absenoldeb a hawliau ECEC yn caniatáu rhieni i ddewis pryd maent yn dymuno mynd yn ôl i weithio (Bloksgaard a Rostgaard, 2018: PERFAR, 2014). Yn yr Almaen, mae'r 12 mis

cyntaf o absenoldeb yn cael eu talu ar gyfradd talu gyfartalog uchel, ar ôl hynny mae hawliau ECEC yn dechrau. Fodd bynnag, gellir ymestyn absenoldeb i dair blynedd (Blum and Erler, 2016). Yn yr Almaen, ni nodir hyn yn benodol, ac mae gwahaniaeth pellach rhwng gwladwriaethau ffederal gorllewinol, sydd gan fwyaf yn cynnig gwasanaethau rhan amser, a gwladwriaethau ffederal dwyreiniol, sydd gan fwyaf yn cynnig darpariaethau llawn amser (ibid.).

11 Oed mewn blynyddoedd wrth ddechrau ysgol

Cymru	Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldiroedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
5	5	4	7	7	6	5	5	6	7	7

Casglwyd y dystiolaeth hon o amrywiaeth o ffynonellau ar y we a dangosir mai Iwerddon sydd â'r dechrau addysg statudol gynharaf; dechreuau 4 gwlad yn 5 mlwydd oed ac mae gan 4 o'r gwledydd astudiaeth 7 mlwydd oed fel yr oed i ddechrau addysg statudol.

12 ECEC/Strategaeth polisi iechyd

	Cymru	Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldiroedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
Addysg	5	5/5	4/5	4/5	4/5	5/5	4/5	3/5	3/5	DDG	3/5
Iechyd	DDG	DDG	DDG	DDG	DDG	DDG	DDG	DDG	DDG	DDG	DDG

Mae'r graddfeydd yma yn awgrymu maint strategaeth ECD cynhwysfawr ac effeithiol; gweledigaeth, nodau, effeithiolrwydd, mecanwaith gweithredu ac adolygiad cyson a gwella. Dangosa'r dystiolaeth fod gan y rhan fwyaf o wledydd yn yr adolygiad strategaeth eithaf datblygedig a gweledigaeth ar lefel polisi ar gyfer ECD. Mae llai o dystiolaeth ar gael yn y ffynonellau a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad hwn ynglŷn â maint strategaeth cynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer iechyd.

13 Grwpiau targed ar gyfer ymyrraeth cynnar (iechyd/addysg)

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldir Oedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
DDG	DDG	DDG	5/5	5/5	DDG	DDG	DDG	5/5	5/5

Mae'r raddfa hon yn cyfeirio at fodolaeth yn genedlaethol neu'n nodweddiadol is-genedlaethol o raglenni ymyrraeth gynnar wedi'i dargedu (teuluoedd incwm isel, plant gydag anghenion arbennig neu anabledd, grwpiau ethnig lleiafrifol, iaith a siaredir gartref yn wahanol i'r iaith genedlaethol), at grwpiau i blant 0 i 3 oed a phlant o 3 i ddechrau addysg gynradd. Mae'r dystiolaeth yn datgelu fod nifer o'r gwledydd gyda rhaglenni ymyrraeth wedi'i dargedu. Mae gwledydd eraill yn adrodd gan i'w gwasanaethau fod yn gyffredinol nid ydynt angen ymyrraeth wedi'i dargedu cymaint.

Mae dogfennaeth Gymreig yn dadlau mai cyflawni'r gefnogaeth gywir i holl blant, yn enwedig rheiny o gefndir difreintiedig, yw'r ffordd orau i dorri'r cylch o dlodi, a chodi dyhead a chyrhaeddiad i bawb. Mae hyn yn tanategu uchelgais Llywodraeth Cymru i greu ffyniant i bawb, gostwng anghydraddoldeb, a hybu llesiant. Ystyrir buddsoddi a ffocysu ar y blynyddoedd cynnar fel buddsoddiad yn yr economi a gweithlu'r dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2017).

14 Cofrestriadau/lefelau cyfranogiad yn ECEC

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldir Oedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
5/5	5/5	5/5	4/5	5/5	5/5	5/5	5/5	2/5	1/5

Mae'r data hyn yn deillio o Wolfe (2013) a edrychodd ar gofrestru o fewn gofal ffurfiol a chyn ysgol erbyn 5/6 oed, yn ogystal â Starting Well (2012) a ystyrir'r gymhareb cofrestru cyn-ysgol, oed cyn gynradd (1 blwyddyn) yn 5 neu 6 oed. Dangosa'r data hyn fod gan y rhan fwyaf o wledydd lefelau gofrestru gymharol dda mewn addysg a gwasanaethau iechyd i blant 5-6 oed. Yn Estonia a Gwlad Pwyl, mae'r niferoedd yn is gan nad yw oed dechrau'r ysgol nes 7 oed.

15 Cyllido/strategaeth cymorthdaliadau

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldir oedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
5/5	4/5	5/5	4/5	4/5	4/5	3/5	1/5	4/5	2/5

Mae'r raddfa hwn yn edrych ar ba mor bell mae gwlad yn defnyddio cymorthdaliadau'n effeithiol i gyrraedd teuluoedd difreintiedig. Ceir dwy ffordd o wneud hyn a ddefnyddir gan y gwledydd a archwilir: ariannu ochr cyflenwi neu ariannu ochr galw

Ochr cyflenwi (Cymhorthdal lleoliadau a ariennir, Cymhorthdal cyflog staff, Grantiau cyfalaf, Grantiau adnoddau): Cyfeiria hwn at arian a roddir drwy ddarparwyr cyn ysgol i gynnwys teuluoedd difreintiedig. Rhoddir y cymorthdaliadau/cymhellion i ddarparwyr cyn ysgol sy'n breifat, ac sydd felly yn targedu teuluoedd difreintiedig yn anuniongyrchol, ond gallent hefyd gael eu darparu gan y wladwriaeth. Mae'r dangosydd hwn yn asesu argaeledd a mynediad i raglenni ac arian, a'u heffeithiolrwydd yn nhermau monitro a chanlyniadau.

5= Mae cymorthdaliadau/ rhaglenni llywodraeth ar gael yn helaeth i'w roi i ddarparwyr cyn ysgol i gynnwys teuluoedd difreintiedig gyda meini prawf cymhwysedd clir a phroses mynediad hawdd/esmwyth i arian, gwybodaeth ar gael yn eang a monitro rheolaidd effeithiolrwydd y rhaglen. 1= Nid oes cymorthdaliadau/rhaglenni llywodraethol i ddarparwyr cyn ysgol.

Ochr galw (Credyd treth/ gostyngiad, Talebion, Ffioedd wedi'i gostwng, Lwfansau Teulu): Mae'r rhain yn cynnwys y rhai a dargedir a rhoi yn uniongyrchol i deuluoedd sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol neu'n economaidd. Mae'r dangosydd hwn yn asesu argaeledd a mynediad i raglenni ac arian, a'u heffeithiolrwydd yn nhermau monitro a chanlyniadau.

5= Mae cymorthdaliadau/rhaglenni'r llywodraeth ar gael yn helaeth i deuluoedd difreintiedig, meini prawf clir ar gyfer cymhwysedd, proses mynediad hawdd/esmwyth at rain, mae gwybodaeth ar rain ar gael yn eang mae monitro rheolaidd o effeithiolrwydd y rhaglen.
 1=Nid oes cymorthdaliadau/ rhaglenni llywodraeth sy'n targedu teuluoedd difreintiedig.

Mae'r dystiolaeth yn dangos fod gan y rhan fwyaf o wledydd yn yr adolygiad unai strategaeth ochr gyflenwi neu alw ar gyfer targedu cymorthdaliadau i deuluoedd difreintiedig.

16 Disgwyliad o ganlyniadau system

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldir oedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
4/5	DDG	DDG	4/5	DDG	DDG	DDG	DDG	4/5	2/5

Mae'r data hwn yn cyfeirio at y graddau y mae gan y llywodraeth ddisgwyliadau pendant am ganlyniadau mewn meysydd dysgu ar draws y ECED a PPE, yn cynnwys, datblygiad personol ac emosiynol, datblygiad cymdeithasol, dinasyddiaeth a gwerthoedd, agweddau a thueddiadau tuag at ddysgu, datblygiad corfforol ac iechyd, datblygiad iaith a sgiliau cyfathrebu, sgiliau darllen a llythrennedd, sgiliau mathemategol, dealltwriaeth o'r byd naturiol, gwyddoniaeth technoleg a'r byd digidol, celfyddydau mynegiannol, cerddoriaeth a chreadigrwydd, ail/iaith dramor, gwybodaeth grefyddol neu ysbrydol.

Dangosa'r data nad yw amryw o'r gwledydd yn nodi canlyniadau plant ar gyfer dysgu o enedigaeth i bump oed. Fodd bynnag, mae Lloegr, Denmarc, Estonia a Gwlad Pwyl yn nodi canlyniadau addysgiadol ar gyfer y cyfnod hwn o'r system addysg. Roedd llawer llai o dystiolaeth yn y setiau data yr edrychwyd arnynt ynglŷn â chanlyniadau iechyd i blant ifanc yn y gwledydd yr adolygiad.

17 Strategaethau integreiddio

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldir oedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
--------	----------	---------	---------	------------	---------------	-----------------	-----------	---------	------------

DDG	DDG	DDG	2/5	DDG	DDG	DDG	DDG	5/5	0/5
-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----

Mae'r maes hwn yn ystyried y ddeddfwriaeth i sicrhau fod amrywiaeth diwylliannol yn cael ei barchu mewn rhaglenni ECE; mynediad wedi ei flaenoriaethu i rai grwpiau diwylliannol, gofynion cymhwysedd wedi'u rheoli ar gyfer rheoli rhaglenni ECE, cyllido ychwanegol, hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol mewn rhaglenni ECE, a recriwtio a hyfforddi staff. Mae'r dystiolaeth adolygiad yn datgelu mai ychydig o ddata sydd gennym ar hyn i'w ddefnyddio mewn cymariaethau traws-ddiwylliannol.

Yng Nghymru, mae cwricwlwm Cyfnod Sylfaenol yn hyrwyddo cyfle cyfartal a gwerthoedd, ac yn dathlu cynhwysiant ac amrywiaeth. Mae Canlyniadau Llesiant ac Amrywiaeth Diwylliannol yn cwmpasu, adnabod a gwerthfawrogi gwerth ac amrywiaeth traddodiadau, diwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli mewn Cymru aml ddiwylliant. Lle bo'n addas, mae angen i leoliadau/ysgolion gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau profiadau perthnasol a hygyrch. Yn arbennig i blant ag anableddau, dylid gwella mynediad i'r cwricwlwm, gwneud gwelliannau corfforol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg a darparu gwybodaeth yn y fformatau addas.

18 Hyfforddiant gweithlu iechyd/addysg

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldir oedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
5/5	3/5	5/5	4/5	4/5	5/5	4/5	3/5	4/5	3/5

Mae'r nodwedd hon yn edrych ar y lefel o athrawon hyfforddedig yn addysg plentyndod cynnar, presenoldeb a chwmpas yr hyfforddiant cychwynnol ynghyd â monitro a systemau adolygu. Yn gonfensiynol cysylltir y rhain â gwasanaethau o safon uchel o fewn system. Yn bennaf roedd dystiolaeth yr adolygiad yn edrych ar hyfforddiant gweithlu mewn addysg gynnar a lleoliadau gofal yn hytrach nag iechyd; dangosa hyn fod gwledydd yn datblygu'r cymwysterau proffesiynol a hyfforddiant eu gweithlu addysg gynnar ac mae rhai gwledydd gyda gweithlu cymhwysedig iawn a phroffesiynol yn ei le'n barod.

Iechyd

19 Mathau o wasanaethau iechyd a chyllido (gan gynnwys iechyd meddwl)

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldiroedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
Mae gwasanaethau iechyd ysgol yn rhan o'r gwasanaeth iechyd, ond yn benodol ac yn ymweld ag ysgolion.	DDG	Mae gwasanaethau iechyd ysgol yn rhan o'r gwasanaeth iechyd, ond yn benodol ac wedi eu lleoli yn yr ysgolion. Cynigir rhai gwasanaethau gan ofal iechyd sylfaenol.	DDG	DDG	DDG	Mae gwasanaethau iechyd ysgol yn rhan o'r gwasanaeth iechyd, ond yn benodol. Mae gwasanaethau iechyd ysgolion yn ymweld ag ysgolion.	DDG	DDG	Mae gwasanaethau iechyd ysgol yn rhan o'r gwasanaeth iechyd, ond yn benodol. Wedi'i lleoli yn yr ysgol. Cynigir rhai gwasanaethau gan ofal iechyd sylfaenol.

Mae'r maes hwn yn edrych ar drefniadaeth gwasanaethau iechyd ysgolion, gan gynnwys Imiwneiddio. Mae'r data ar gyfer imiwneiddio plant yn mesur y canran o blant 12-23 mis oed sydd wedi derbyn brechiadau cyn 12 mis neu ar unrhyw adeg cyn yr arolwg. Ystyrir plentyn wedi ei imiwneiddio'n ddigonol yn erbyn diphtheria, pertussis (neu'r pas), a thetanus (DPT) ar ôl derbyn tri dos o'r brechlyn. 5= Dros 90 y cant; 1= llai na 60 y cant

Mae'r data yn fratiog o fewn y ffynonellau sydd ar gael; mae gan 4 o'r 10 gwlad wasanaethau iechyd sydd wedi'u lleoli o fewn y gwasanaeth iechyd yn hytrach na'r gwasanaeth addysg ac felly nid ydynt yn llawn integredig yn eu gwaith gyda staff yr ysgol. Mae'n agwedd o ymyrraeth gynnar sydd yn datblygu'r gwledydd astudiaeth, ond mae llawer o wledydd yn parhau i fod mewn cam cynnar o integreiddio yn eu model cyflawni.

Yng Nghymru, mae cysylltiadau cyffredinol yn cwmpasu tri ymyriad: sgrinio, imiwneiddio, a monitro a chefnogi datblygiad plentyn (gwyliadwriaeth). Amrywia'r gwasanaethau hyn o bwynt cyswllt cyntaf y teulu, meddyg y teulu, i ystod eang o wasanaethau gan gynnwys mamolaeth, ymweld iechyd, nyrsio ysgol, iechyd meddwl, gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.

Bydd Rhaglen Plant Iach Cymru (RPIC) yn ganolog i gyflawni gwasanaeth blaengar a chyffredinol yng Nghymru, yn cynnig ystod o ymyraethau ataliol a chynnar i wahanol lefelau o angen. Fe'i cefnogwyd gan System Iechyd Plant wedi ei ddiweddarau, fframwaith sicrwydd ansawdd a wnaiff ddarparu sicrwydd o ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau ac ymarfer proffesiynol Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN) ar draws Cymru.¹

Bydd y System Iechyd Plant yn sicrhau bod data cywir a chymaradwy yn cael ei gasglu i gefnogi gwelliannau i iechyd plant ar draws Cymru. Nid yn unig yw asesiad proffesiynol ymwelydd iechyd ar wydnwch teuluol yn edrych ar ddatblygiad y plentyn ond mae hefyd yn edrych ar ddylanwadau ehangach fel cymdeithasol, economaidd a ffactorau amgylcheddol ac os yw'r plentyn a'r teulu angen cefnogaeth ychwanegol i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder.

20 Cwmpas gwasanaethau iechyd

Lloegr	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldiroedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
7-10 apwyntiad cyn geni; cefnogaeth Ymwelydd iechyd ôl-enedigol, gwiriad ôl-enedigol 6 wythnos ac adolygiadau	Archwiliad iechyd cynhwysfawr (ac archwiliad iechyd y geg ar wahân) yn y dosbarth 1af (7 oed), 5ed (11 oed) ac 8fed (14 oed) archwiliad sylfaenol	DDG	DDG	DDG	Sawl ymweliad lles yn ystod y blynyddoedd ysgol, yn bennaf yn nosbarth 2 (5-6	DDG	DDG	Cyn ysgol, ac yn nosbarth 3 cynradd (9 oed).

¹ <http://wales.nhs.uk/siteplus/888/news/4372>

iechyd a datblygiad nes 2 oed.	unwaith pob blwyddyn academaidd ym mhob dosbarth arall o'r 2il i'r 9fed.				oed) a 7 (10-11 oed) yn ysgol gynradd.			
-----------------------------------	--	--	--	--	--	--	--	--

Roedd y data hwn wedi'i lunio o archwiliadau iechyd yn ôl gwlad ac oed ond roedd dod o hyd i ddata yn llawer o'r gwledydd yn anodd drwy ddefnyddio'r ffynonellau data oedd ar gael. Dechreuodd byrddau iechyd yng Nghymru roi'r RPIC ar waith yn Hydref 2016; mae elfennau craidd y rhaglen sydd ar gael i bob rhiant gyda phlant o dan 7 oed yn cynnwys: Iechyd a datblygiad, sgrinio ac archwilio corfforol, imiwneiddio, negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol, atal Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod (SIDS), bwydo ar y fron a diddyfnu iach, perthnasau iach a cham-drin domestig, hyrwyddo rhianta sensitif, iechyd meddwl amenedigol a diogelu.²

21 Fframwaith rheoleiddio/ archwilio/ achredu

Ni does fawr o dystiolaeth am y fframwaith rheoleiddio i wasanaethau iechyd yn y ffynonellau cyhoeddedig a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad hwn. Yng Nghymru, rheoleidir ac archwilir gwasanaethau iechyd gan Arolygaeth Gofal Iechyd Cymru, gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn ymgymryd â dyletswyddau tebyg yn Lloegr.

22 Lefel o integreiddio

Ychydig o dystiolaeth sydd am y lefel o integreiddio o wasanaethau iechyd yn y ffynonellau cyhoeddedig a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad hwn - gweler yr adran olaf o'r prif adroddiad.

² <http://www.wales.nhs.uk/siteplus/888/news/43724>

Addysg

23 Mathau o leoliadau a chyllido

Mae amrywiaeth sylweddol ar draws y gwledydd a archwiliwyd yn y math o leoliadau a gynigai ECEC, ac mae'r lleoliadau sy'n gwasanaethu plant 0-3 yn aml yn wahanol eu math a'u model cyflawni i'r rhai sy'n cyflawni gwasanaethau i'r rhai sy'n 3 oed a throsodd. Yn y rhan fwyaf roedd system 'hollt' yn gweithredu rhwng 0-3 a 3 oed a throsodd, gydag Estonia, Ffindir a Denmarc yn cynnig gwasanaeth addysg integredig o enedigaeth i addysg orfodol.

24 Cwmpas gwasanaethau addysg

Roedd gan y rhan fwyaf o wledydd yn yr adolygiad hwn gwmpas cynhwysfawr o addysg gynnar a gofal. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gyfyngedig yn ffynonellau'r adolygiad ar gwmpas y gwasanaethau addysg, er mae ychydig o dystiolaeth yn cyfeirio at gwmpas mwy cyfyngedig mewn ardaloedd o dlodi neu anfantais yn ogystal ag ardaloedd gwledig o'u cymharu â lleoliadau trefol.

25 Fframwaith rheoleiddio/archwilio/achredu

Mae'r nodwedd hon yn cynnwys presenoldeb a chwmpas o fecanwaith casglu data, adolygiadau rheolaidd a lledaenu a bodolaeth corff cenedlaethol neu is-genedlaethol yn gyfrifol am achredu neu archwilio. Roedd gan y rhan fwyaf o wledydd yn yr adolygiad hwn system o reoleiddio ac archwilio, a oedd yn gofyn i leoliadau i gael eu cofrestru a'u trwyddedu a chyrraedd y gofynion isaf. Mae lefel y monitro a chraffu cyn gynted ag y mae lleoliad wedi ei drwyddedu yn amrywio'n sylweddol rhwng gwledydd, gyda rhai gwledydd â monitro a chraffu dwys (DU a Gwlad Belg) ac eraill yn llai (Denmarc ac Estonia).

26 Lefel yr integreiddio

Lloegr	Iwerddon	Ffindir	Denmarc	Gwlad Belg	Seland Newydd	Yr Iseldir oedd	Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl
4/5	3/5	5/5	4/5	5/5	5/5	4/5	3/5	3/5	0/5

NB: Dylid nodi nad yw iechyd fel arfer yn cael ei gynnwys yn y 'systemau integredig' hyn, yn hytrach mae'r ffocws ar integreiddio addysg a gwasanaethau iechyd.

Ar lefel genedlaethol gellir un ai rhannu (holtti) neu uno'r (integreiddio) cyfrifoldeb am addysg blynyddoedd cynnar a gwasanaethau gofal. O'r aelod-wledydd y OECD, mae gan oddeutu hanner ohonynt system wedi'i holtti o addysg a gofal, a hanner system integredig (OECD, 2104). Yn y gwledydd gyda system integredig (Lloegr, Seland Newydd) yr Adran Addysg neu ei wlad gyfatebol sy'n gyfrifol am ECEC. Yn Denmarc, Gweinidogaeth ar gyfer Plant, Cydraddoldeb Rhyw, Integreiddio a Materion Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ECEC, ac yn yr Almaen y Weinidogaeth ar Gyfer Materion y Teulu, yr Henoed, Merched a'r Ieuencid sy'n gyfrifol am ECEC. Mae ECEC y Ffindir yn seiliedig ar ymagwedd integredig tuag at ofal, addysg ac addysgu. Cyflawnir anghenion gofal yn ystod y dydd i blant bach a'r safbwynt addysgol a hyfforddiadol. Mae model ECEC o wladwriaeth lles Nordig, lle cyfunir gofal, addysg a hyfforddiant i ffurfio cyfanrwydd integredig a lle mae chwarae yn rhan ganolog o weithgareddau pedagogaidd, yn gweld gofal dydd plant a systemau eraill sy'n cefnogi gofal i blant bach fel rhan o addysg plentyndod gynnar a gofal.

Fodd bynnag, mae rhai gwledydd yn symud i integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol/teulu o fewn neu system blynyddoedd cynnar.

Lloegr - Mae Rhaglen Plentyn Iach (Adran Iechyd, 2009) a Dechrau Iach³ wrth galon gwasanaethau iechyd cyhoeddus i blant a theuluoedd ac yn dod ac iechyd, lles a gwydnwch i bob plentyn. Mae gan rain ffocws ar iechyd ac anogir lleoliadau addysg a gofal i fod y gyfrifol am eu gweithredu.

Iwerddon – Mae gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol rhanbarthol newydd wedi ei lansio sydd yn gweithio'n uniongyrchol mewn ysgolion cynradd prif ffrwd i gefnogi plant. Bydd 'RISE' (Regional Integrated Support for Education) yn galluogi staff o sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac addysg i weithio'n agos gyda'i gilydd i gynorthwyo plant i gael mynediad at leoliadau dysgu a gwella eu datblygiad. Mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion, Therapyddion Ymddygiadol, Seicolegwyr Clinigol a Chynorthwywyr Therapi nawr yn mynychu ysgolion cynradd ar draws Gogledd Iwerddon i ddarparu ystod o raglenni amlddisgyblaethol sydd wedi eu ffocysu ar blant.

³ <https://www.healthystart.nhs.uk/>

Atodiad 4: Crynodeb o ddarpariaeth iechyd plentyndod, gofal cymdeithasol ac addysg yn y gwledydd adolygiad yng Ngham 2 na'u chynhwysir yn yr Astudiaethau achos

Ffindir

Ar lefel llywodraethol, mae'r Ffindir yn rhoi pwyslais mawr mewn polisi a deddfwriaeth ar addysg gynnar cyffredinol a gwasanaethau gofal i bob plentyn a theuluoedd, ble bynnag maent yn byw neu eu statws economaidd. Mae hefyd ymrwymiad canolog i bartneriaeth gyda rhieni wrth sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn. Yn nhermau cefnogaeth cyn-geni, mae ymweliad ac archwiliad i'r fam ymhen pedwar mis, yn ogystal ag i'r tad a gweddill y teulu. Asesir llesiant y teulu i gyd ar yr adeg hon a rho gyfarfodydd dilynol a darperir hyfforddiant rhianta i rieni am y tro cyntaf mewn clinigau cyn-geni. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i gysylltu'n agos â chlinigau mamolaeth ac ysbytai.

Derbynia deuluoedd ymweliad yn y cartref gan fydwraig neu nyrs yn fuan ar ôl y geni, yn dilyn hyn byddant yn ymweld â chlinig iechyd plant beth bynnag naw gwaith yn y flwyddyn gyntaf. Ar ôl blwyddyn, mae'r ymweliadau'n gostwng i bob 6/12 mis nes oed ysgol, lle fydd

system gofal iechyd yr ysgol yn dod yn ei le. System gofal iechyd ysgol: Mae bob plentyn yn cael ei weld yn flynyddol gan nyrs ysgol, gydag archwiliadau iechyd mwy dwys yn cael eu cynnig ym mlwyddyn un, pump ac wyth. Mae'r system yn cymryd ymagwedd 'plentyn cyfan', ac yn ystyried iechyd corfforol a meddyliol. Mae'r olaf yn anelu at adnabod cyn gynted â phosib unrhyw faterion iechyd meddwl sy'n codi, a'u cyfeirio os oes angen i wasanaethau eraill fel arweiniad i blant neu ganolfannau cynghori teuluol neu wasanaethau iechyd meddwl mwy arbenigol os yw'n briodol. Yn ogystal mae cwmpas y cynllun bocs babi yn y Ffindir wedi bod yn sylweddol, mae'n cynorthwyo i hyrwyddo cefnogaeth blant ac amrywiaeth. Mae bob mam am y tro cyntaf yn y Ffindir yn derbyn bocs o hanfodion babi, a gellir hefyd defnyddio'r bocs fel crud (mae'n cael ei ddarparu gyda dillad gwely).

Mewn perthynas ag elfennau eraill yr ECEC, daeth Deddf Addysg a Gofal Plentynod Cynnar i rym ddechrau Medi 2018. (Comisiwn Ewropeaidd, 2018a). Mae'r ddeddf ddiwygiedig yn cynnwys y newidiadau allweddol canlynol:

- Bydd y nifer o staff ECEC gyda chymhwyster addysg uwch yn cael ei gynyddu. Erbyn 2030, bydd dwy ran o dair o'r staff y canolfannau yn gorfod cael cymhwyster ar lefel Baglor. Bydd teitlau swyddi yn cael eu diwygio a'u hegluro;
- Bydd rheoliadau ar drosglwyddo gwybodaeth rhwng canolfannau ECEC, awdurdodau a chartref yn cael eu newid i rwyddhau cyfnewid gwybodaeth;
- Caiff bas data ei sefydlu i gasglu gwybodaeth ar ddarparwyr ECEC, staff, teuluoedd a phlant i gefnogi awdurdodau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol; ac i ddarparu'r data diweddaraf, dibynadwy, cynhwysfawr a chymaradwy;
- Mae atal bwlio wedi'i nodi'n glir: mae'n rhaid gwarchod bob plentyn rhag trais, bwlio ac aflonyddu.

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, mae system iechyd y Ffindir yn gymhleth ac yn ddatganoledig, ac mae gofal yn cael ei gyflawni mewn cyfleusterau bwrdeistrefol, galwedigaethol neu breifat. Mae Gweinyddiaeth Materion Cymdeithasol ac Iechyd yn gosod canllawiau cenedlaethol ar gyfer polisi cymdeithasol ac iechyd; dros 300 bwrdeistref (awdurdodau lleol) yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau sylfaenol, fel addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, i'w preswylwyr. Mae bwrdeistrefi yn cyllido a threfnu (yn aml ar y cyd) darpariaeth gofal sylfaenol, ac yn ffurfio 20 o ardaloedd ysbytai i'w cyllido a darparu gofal ysbyty. Ar y lefel genedlaethol, mae Gweinyddiaeth Materion Cymdeithasol ac Iechyd yn gyfrifol am ddatblygu a rhoi diwygiadau iechyd a pholisïau ar waith, ac mae'n dibynnu'n helaeth ar rwydwaith o gyrff arbenigol ac ymgynghorol yn ei waith. (SIB, 2017). Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r Ffindir yn ymgymryd â thrafodaethau hir yn ymwneud â chynigion dadleuol i ddiwygio'i gwasanaeth iechyd; buasai'r diwygiadau hyn yn sefydlu 18 sir Newydd

ac yn symud cyfrifoldeb darpariaeth gwasanaethau o lywodraethau lleol i ranbarthau gofal iechyd Newydd (Comisiwn Ewropeaidd, 2018a and b).⁴

Iwerddon

Yn wahanol i'r system addysg sydd wedi ei ddiffinio'n glir, mae'r gwasanaethau yn Iwerddon sy'n darparu ar gyfer 'gofal-allan-o'r-cartref' ac addysg plant o enedigaeth i chwech yn cael eu disgrifio'n amrywiol fel crèche, meithrinfeydd, cyn-ysgolion, grwpiau chwarae, clybiau ar ôl ysgol, ayyb. Adlewyrcha hyn yr amrywiol ddibenion sy'n cael eu priodoli i'r gwasanaethau hyn gan gynnwys gofalu am blant rhieni sy'n gweithio a darparu cyfleoedd ar gyfer profiadau addysgiadol cynnar i blant ifanc. Mae mentrau polisi cenedlaethol wedi ymgorffori ymhellach Addysg Plentyndod Cynnar a Gofal o fewn geirfa ymarfer mewn plentyndod cynnar, fel datblygiad:

- Síoita, Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Addysg Plentyndod Cynnar (CECDE, 2006). Dyluniwyd Síoita i ddiffinio, asesu a chefnogi gwella ansawdd ar draws bob agwedd o ymarfer mewn gofal plentyndod cynnar a lleoliadau addysg lle mae plant o enedigaeth i chwech oed yn bresennol;⁵
- Aistear, y Fframwaith ar gyfer Dysgu Cynnar (NCCA, 2009), sef y fframwaith cwricwlwm ar gyfer holl blant Iwerddon o enedigaeth i chwech.⁶

Mae'r cyhoeddiad diweddar lle ceir blwyddyn cyn-ysgol am ddim i blant yn y flwyddyn cyn mynychu ysgol gynradd yn mynd i ddod a mwy o gydlynid i natur profiadau plant mewn amrywiaeth o leoliadau plentyndod. Mae Cynllun Gofal ac Addysg Plentyndod Cynnar (ECCE) yn darparu gofal ac addysg plentyndod cynnar i blant sydd mewn oed cyn ysgol. Cynigir y cynllun mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (cyn ysgolion, Montessori, crèche, grwpiau chwarae) am 3 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos, 38 wythnos y flwyddyn. Mae gan

⁴ <https://www.reuters.com/article/us-finland-reforms/finnish-health-reforms-face-new-delays-after-decade-of-wrangling-idUSKCN1X4X4>

⁵ <http://siolta.ie/index.php>

⁶ <https://www.curriculumonline.ie/Early-childhood/Aistear-Framework>

bob plentyn hawl i ddwy flynedd academaidd lawn ar y cynllun ECCE ac yn gymwys i ddechrau'r cynllun yn y mis Medi maent yn troi'n 3 mlwydd oed.⁷

Yn Iwerddon ceir asiantaeth wladwriaeth ganolog neu sefydliad o gefnogaeth gofal cymdeithasol gyda chyflyrau iechyd/anableddau cymhleth. Mae Gweithrediaeth y Gwasanaeth Iechyd (GGI) yn gyfrifol am ofal sylfaenol a chymdeithasol.⁸ Y Weithrediaeth y Gwasanaeth Iechyd sydd hefyd yn gyfrifol am archwilio cyn ysgolion, meithrinfeydd, crèche, gofal dydd a gwasanaethau eraill sydd ar gyfer plant 0-6, o dan Reolaethau Gofal Plant (Gwasanaethau Cyn Ysgol) 2006. Mae swyddogaethau Gwasanaethau Plant a Theuluoedd o'r GGI nawr yn rhan o Asiantaeth Plant a Theuluoedd, Tusla. Sefydlwyd Tusla yn Ionawr 2014 ac mae'n asiantaeth ymroddedig y Wladwriaeth sy'n gyfrifol am wella llesiant a chanlyniadau i blant. Daw a dros 4,000 o staff ynghyd a chyllideb weithredol o €750m, ac fe'i disgrifir i fod yn cynrychioli "y diwygiad mwyaf cynhwysfawr o wasanaethau amddiffyn plant, ymyrraeth gynnar a chymorth teuluoedd a gynhaliwyd erioed yn Iwerddon".⁹ Fodd bynnag er i ofal sylfaenol a chymdeithasol gael ei ddarparu gan yr un asiantaeth, mewn ymarfer mae'r cysylltiadau rhwng y gwasanaethau hyn yn anffurfiol ac nid ydynt wedi eu hintegreiddio'n llawn; mae'r GGI ar hyn o bryd yn ffurfweddu Timau Rhwydwaith Anableddau Plant a disgwylir iddynt ddarparu gofal i'r plant hynny sydd ag anghenion mwyaf cymhleth. Bydd y timau hyn darparu gofal integredig yn seiliedig ar anghenion yn hytrach na diagnosis i blant ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd waeth beth fo anabledd y plentyn (boed hynny'n ddeallusol neu gorfforol).

Yn Iwerddon, rhagwelir y bydd plant yn cael mynediad at wahanol lwybrau o ofal gan ddibynnu ar ba mor gymhleth yw eu hanghenion gofal a disgwylir y bydd plant ag anghenion llai cymhleth yn cael eu trin drwy wasanaethau gofal sylfaenol amlddisgyblaeth. Yr Awdurdod Anabledd Cenedlaethol¹⁰ yw'r corff annibynnol y wladwriaeth sy'n darparu gwybodaeth arbenigol i'r llywodraeth a'r sector gyhoeddus ar bolisi anabledd ac ymarfer.

⁷ <https://www.earlychildhoodireland.ie/work/information-parents/choosing-childcare/ecce-free-preschool-year/>

⁸ <https://www.hse.ie/eng/>

⁹ <https://www.tusla.ie/>

¹⁰ <http://nda.ie/>

Atodiad 5: Crynodeb o'r cyd-destun cymharol ar gyfer y 4 astudiaeth achos

	ESTONIA	DENMARC	YR ISELDIROEDD	GWLAD BELG
MAINT	Yn cwmpasu ardal gyfan o 45,227 cm ²	16,634 milltiroedd sgwâr (43,095 cilomedrau sgwâr)	41,540 cm ² (16,040 milltiroedd sgwâr)	11,780 milltiroedd sgwâr (30,510 cilomedrau sgwâr)
TIRWEDD	Tir mawr a 2,222 ynys, rhan fwyaf o'r wlad ar, neu'n agos, at lefel y môr	Mwy na phedwar cant o ynysoedd	Hynod o wastad gydag ehangiaidau mawr o lynnoedd, afonydd, a chamlesi	Rhannau canolog a gogleddol wedi eu gorchuddio â rhwydwaith trwchus o ddinasoedd maint canolig a bach
DIGWYDDIADAU ARWYDDOCAOL	Canrifoedd o reoli'n olynol gan yr Almaen, Denmarc, Sweden a Rwsia, annibynnol ers 1991	Newidiodd yn sydyn o fod yn gymdeithas amaethyddol i un ddiwydiannol	Dim ton fawr o ddiwydiannu ond wedi aros yn gadarn gydag amaethu, masnach a'r diwydiannau gwasanaethu. Rhaniad hanesyddol rhwng y gogledd Protestannaidd a'r	Yn sgil cau eu mwyngloddiau glo yn y 1960au, cafwyd llai na 60% o gyflogaeth erbyn 1999.

			de Catholig, wedi eu gwahanu gan yr afon Rhein.	
CYFOETH	Y cyflogau misol uchaf a'r dyraniad tai uchaf y pen yn yr Undeb Sofietaidd	Cyfraddau diweithdra uchel, y enwedig ymhlith y lleiafrifoedd ethnig. Dim ond 15% sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, llawer gyda swyddi yn y dinasoedd.	Incwm cyfartalog ar ôl trethi yw 20,000 ewro (\$23,160) gyda diweithdra nawr o gwmpas 6%	Cymdeithas homogenaidd, cyfoethog, mae cyfoeth nawr wedi'i ddsbarthu'n gymharol gyfartal, gyda'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn cael eu dosbarthu'n ddsbarth canol
TREFN LLYWODRAETH	Gweriniaeth senedd unedol ddemocrataidd	Pwerau gweithredol yn nwylo'r frenhiniaeth, tra mae pwerau deddfwriaethol wedi'u lleoli yn y senedd.	Gweriniaeth unedol wedi'i lywodraethu gan gorff canolog, pwerau gwleidyddol yn nwylo gweinidogion cabinet wedi'u harwain gan brif weinidog.	Lluniwyd yn hanesyddol o fewn strwythurau cymdeithasol integredig, neu 'pileri', wedi'u seilio ar dair prif ideoleg
POBLOGAETH	1.3 miliwn	5.7 miliwn	17.1 miliwn	11.5 miliwn
ETHNIGRWYDD	Pobl Ffinnaidd gyda chymuned sylweddol o Rwsiaid ethnig	Mewnfudo, yn bennaf o wledydd Sgandinafaidd eraill a gogledd Ewrop.	Bron i 3 miliwn o breswylwyr dramor yn bennaf o'r Undeb Ewropeaidd	Canran uchel o'r boblogaeth nad ydynt yn ddinasyddion, gan gynnwys cymuned o fewnfudwyr Iddewig, Pwyliaid, Eidalwyr, rhai o Ogledd Affrica a Thwrci
IAITH	Estoniad a Rwsieg	Daneg (deillio o Almaeneg)	Iseldireg safonol, sy'n debyg i Almaeneg	Y ddwy iaith swyddogol ar y cyd yw Iseldireg a Ffrangeg

CYMERIAD	Teulu a theimlad o berthyn yn bwysig gyda gwreiddiau mewn gwerthoedd gwledig, gwerinol.	Gwledig a threfol, cymuned ynysoedd gyda thraddodiadau rhanbarthol. Deugain y cant o'r boblogaeth sy'n oedolion yn briod, 45 y cant yn ddibriod, 7 y cant wedi ysgaru, a 7 y cant yn weddw.	Un o'r gwledydd gyda'r dwysedd poblogaeth fwyaf y byd, dwy isadran ddiwylliannol fawr; diwylliannau'r Randstad (trefol) a'r di-Randstad. Dim diwylliant unffurf gref, yn ffafrio amrywiaeth a goddefgarwch o wahaniaeth.	Un o'r gwledydd mwyaf trefol â dwysedd byw yn y byd, mae ei dinasoedd yn cynnwys oddeutu 97% o'r boblogaeth.
LLES CYMDEITHASOL	Budd-daliadau diweithdra cyfyngedig, nawdd cymdeithasol i'r henoed. Gofal iechyd cyffredinol, y cyfnod mamolaeth gyda thâl hiraf yn yr OECD.	System lles cymdeithasol cynhwysfawr yn cynnig budd-daliadau diweithdra, anabled, a henoed gyda mynediad am ddim i ofal iechyd ac addysg	Gofal iechyd bron yn llwyr gyfrifoldeb y wladwriaeth gydag addysg gyffredin a chynnar am ddim	System nawdd gymdeithasol gynhwysol iawn. Gofal dydd ac addysg gynnar yn cael ei gyllido gan y Llywodraeth
MARCHNAD GYFLOGAETH	Bron pob swydd yn rhoi blaenoriaeth i weithwyr ifanc	Ni rennir y strata cymdeithasol i mewn i grwpiau incwm, yn hytrach, fe'i categoreiddir yn ôl lefel addysg a galwedigaeth	Twf economaidd uchel ar droad yr ugeinfed ganrif, roedd cymhellion treth, a rhaglenni ail addysgu'r llywodraeth wedi gostwng diweithdra hir dymor i'r lefelau isaf erioed.	Yn bennaf yn ddosbarth canol, dim ond 5 i 6 y cant sy'n byw yn agos i'r llinell dlodi
ANGHYDRADD OLDEB	Anghydraddoldeb wedi gostwng yn ddramatig	Anghydraddoldeb cymdeithasol gydag ugain y cant o'r teuluoedd incwm	Trafodaeth agored am ddosbarth, incwm, a gwahaniaethau statws mwy neu lai yn dabŵ mewn	Cyfoeth wedi ei ddosbarthu'n gymharol gyfartal, yn y blynyddoedd diweddar mae'r bwlch rhwng y

		isaf yn ennill 6 y cant o gyfanswm incwm, tra bod 20 y cant o'r teuluoedd incwm uchaf yn ennill 40 y cant o'r incwm. Cynnydd yn y di-waith.	cymdeithas sy'n rhoi pwyslais cryf ar gydraddoldeb	rhywiau wedi lleihau ac mae'r gwahaniaethau cyflog yr isaf yn yr Undeb Ewropeaidd.
RÔL MERCHED	Rhoddir swyddi yn y sefyllfaoedd mwyaf gweladwy i ferched ifanc yn y sector gwasanaethu	Y ganran uchaf o ferched yn y farchnad lafur yn Ewrop, mewn rolau yn y cartref a theulu yn ennill llai na dynion	70% o'r llafurlu, maent yn aml yn gweithio'n rhan amser (60%) a dal yn llusgo tu ôl i'r dynion yn nhermau incwm a statws swydd.	Yn aml mewn rolau rhan amser, mewn nifer cyfyngedig o sectorau a swyddi, mae cyfradd diweithdra ychydig yn is i ferched
		Brenhiniaeth gyfansoddiadol gydag olyniaeth etifeddol.	Democratiaeth seneddol o dan frenhiniaeth gyfansoddiadol	Llywodraeth ffederal yn arwain at chwe llywodraeth a chwe senedd.

Cyfeiriadau

Adran Iechyd (2009). **Healthy Child Programme: From 5–19 years**. Adalwyd o:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/492086/HCP_5_to_19.pdf

Bertram, T., and Pascal, C. (2016) **Early Childhood Policies and Systems in Eight Countries: Findings from IEA's Early Childhood Education Study**, The International Association for the Evaluation of Educational Achievement: Hamburg. Adalwyd o:

https://www.iea.nl/fileadmin/user_upload/Publications/Electronic_versions/ECES-policies_and_systems-report.pdf?cv=1

Bloksgaard, L., and Rostgaard, T. (2018). **Denmark country note**. Adalwyd o:

https://www.leavenetwork.org/fileadmin/user_upload/k_leavenetwork/country_notes/2018/FINAL.Denmark2018.pdf

Blum, S., Erler, D, and Reimer, I. (2016). **Country notes on leave policies and research: Germany**. Adalwyd o:

https://www.researchgate.net/publication/282765993_Country_notes_on_leave_policies_and_research_Germany

Comisiwn Ewropeaidd (2018a). **National Reforms in Early Childhood Education and Care: Finland**. Adalwyd o:

https://eacea.ec.europa.eu/national-policies/eurydice/content/national-reforms-early-childhood-education-and-care-21_sk

Comisiwn Ewropeaidd (2018b). **European Social Policy Network Flash Report 2018/2**. Adalwyd o:

https://www.google.com/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=2&ved=2ahUKEwjmqIKh2djeAhVJQ8AKHcAhCsQQFjABegQICBAC&url=http%3A%2F%2Fec.europa.eu%2Fsocial%2FBlobServlet%3FdocId%3D18981%26langId%3Den&usg=AOvVaw06KBVxW74MVnFkk_q0cWS0

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015). **Inquiry into Poverty in Wales: Poverty and Inequality**. Communities, Equality and Local Government Committee. Adalwyd o: <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-Id10252/cr-Id10252-e.pdf>

Economist Intelligence Unit (EIU) (2012) **Starting Well: Benchmarking Early Education Across the World**. Adalwyd o: <http://graphics.eiu.com/upload/eb/Lienstartingwell.pdf>

Llywodraeth Cymru (2017). **Prosperity for All: the national strategy**. Adalwyd o: <https://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-en.pdf>

Llywodraeth Seland Newydd (2016). **Practical information about education for parents and carers**. Adalwyd o: <https://parents.education.govt.nz/early-learning/early-childhood-education/20-hours-ece-2/>

OECD (2014). **Education at a Glance 2014: OECD Indicators**. Adalwyd o: <https://www.oecd-ilibrary.org/docserver/eag-2014-en.pdf?expires=1542391635&id=id&accname=guest&checksum=1429DD724D2BC11CEC1F90724176D4BE>

OECD (2016). **Public spending on childcare and early education**. Adalwyd o: http://www.oecd.org/els/soc/PF3_1_Public_spending_on_childcare_and_early_education.pdf

OECD **Family Database**. Retrieved from: <http://www.oecd.org/els/family/database.htm>

Office for National Statistics (2016). **Child Mortality for England and Wales**. Adalwyd o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/childhoodinfantandperinatalmortalityinenglandandwales/2016>

Pascal C., Bertram T., Delaney S., and Nelson C. (2012) **A Comparison of International Childcare Systems: Evidence to Childcare Commission**. London: Department for Education. Adalwyd o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/212564/DFE-RR269.pdf

PERFAR (2014). **Family policies: Denmark**. Adalwyd o: <https://www.perfar.eu/policy/family-children/denmark>

Save the Children (2017). **Little Pieces, Big Picture**. Adalwyd o:

<https://www.savethechildren.org.uk/content/dam/global/reports/education-and-child-protection/stc-wales-childcare-report-2017.pdf>.

Sefydliad Iechyd y Byd (2017). **State of Health in the EU Finland: Country Health Profile**. Adalwyd o:

http://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0011/355979/Health-Profile-Finland-Eng.pdf?ua=1

Senedd Ewropeaidd (2015). **Infographic: Maternity and paternity leave in the EU**. Adalwyd o:

[http://www.europarl.europa.eu/RegData/etudes/ATAG/2015/549004/EPRS_ATA\(2015\)549004_EN.pdf](http://www.europarl.europa.eu/RegData/etudes/ATAG/2015/549004/EPRS_ATA(2015)549004_EN.pdf)

Starting Well (2012) **Index: Benchmarking early education across the world**. Adalwyd o: [https://www.cesifo-](https://www.cesifo-group.de/ifoHome/facts/DICE/Social-Policy/Family/Childcare/Starting-well-index-EIU/fileBinary/Starting-well-index-EIU.xls)

[group.de/ifoHome/facts/DICE/Social-Policy/Family/Childcare/Starting-well-index-EIU/fileBinary/Starting-well-index-EIU.xls](https://www.cesifo-group.de/ifoHome/facts/DICE/Social-Policy/Family/Childcare/Starting-well-index-EIU/fileBinary/Starting-well-index-EIU.xls)

Wolfe, I & McKee, M (2013). **European Child Health Services and Systems: lessons without borders**. Prifysgol Agored Press/McGraw-Hill, Maidenhead.

Manylion am yr Awduron

Mae **CHRIS PASCAL** yn Athro mewn Addysg Plentyndod Cynnar a Chyfarwyddwr yn y Ganolfan Ymchwil Plentyndod Cynnar yn Birmingham, Lloegr. Yn ogystal, mae hi'n dal swyddi Athrawol ym Mhrifysgol Dinas Birmingham, Prifysgol Birmingham a Phrifysgol Wolverhampton. Mae hi'n Gyd-Sylfaenydd a Llywydd Cymdeithas Ymchwil Addysg Plentyndod Cynnar Ewrop.

Mae **TONY BERTRAM** yn Athro Addysg Plentyndod Cynnar Rhyngwladol a Chyfarwyddwr yn y Ganolfan Ymchwil Plentyndod Cynnar yn Birmingham, Lloegr. Yn ogystal, mae'n dal swyddi Athrawol ym Mhrifysgol Dinas Birmingham, Prifysgol Birmingham a Phrifysgol Wolverhampton. Mae'n Gyd-Sylfaenydd a Golygydd Cydlyn Cymdeithas Ymchwil Addysg Plentyndod Cynnar Ewrop.

Mae **KATHRYN PECKHAM** yn ymgynghorydd annibynnol, ymchwilydd, hyfforddwr ac awdur mewn plentyndeod cynnar sydd yn gweithio gyda Ganolfan Ymchwil Plentyndod Cynnar lle mae hi'n ymgymryd â doethuriaeth.

Am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda cysylltwch â:

Arweinydd WCPP

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

OGL Trwyddedir yr adroddiad hwn o dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored